

Swper Haf Bwrlwm

Bydd aelodau Bwrlwm capel Bethlehem Talybont yn cynnal eu Swper Haf yng Nghlwb Golf Caernarfon nos Fawrth, Gorffennaf 7.

Pwyllgor y Gymdeithas

Cynhelir Pwyllgor Cymdeithas Undebol Llanberis tua diwedd y Bore Coffi fore Mawrth, Gorffennaf 14. Bydd angen ethol Ysgrifennydd newydd. Mae Miss Dilys Mai Roberts wedi gwneud y gwaith ers blynnyddoedd ac wedi dweud mewn da bryd ers blwyddyn na fyddai'n dal ati ar ôl y tymor diwethaf yma.

Henaduriaeth

Cynhelir Henaduriaeth Arfon yng nghapel Carmel (Arfon) am 6.30 o'r gloch nos Fercher, Gorffennaf 15.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Gorffennaf 5: Oedfa am 9.30 o'r gloch yng ngofal Mr John H Hughes, Llanberis ac Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Gorffennaf 3: CIC am 7.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mehefin 28

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

Gorffennaf 5

9.30 a.m. - Mr John H Hughes
10.15 a.m. - Ysgol Sul

Gorffennaf 12

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul

Dydd Sul, Gorffennaf 5: Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10.00 o'r gloch. Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Oedfa dan arweiniad Mr John H Hughes am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Gorffennaf 5: Oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

BETHLEHEM

Nos Fercher, Gorffennaf 1: Te Mefus er budd y capel am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Gorffennaf 5: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan.

CARMEL

Dydd Sul, Gorffennaf 5: Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Gorffennaf 3: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

Gwyliau Blynnyddol

Bydd y Gweinidog yn cychwyn ei fis o wyliau ddydd Gwener, Gorffennaf 17.

Y mis nesaf - Llanberis

Mehefin 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - DIM oedfa

Gorffennaf 5

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John H Hughes

Gorffennaf 12

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 644: Dydd Sul, 28 Mehefin, 2015

Traeth Sousse

A hithau'n ddiwedd Mehefin mae pobl yn amlwg yn meddwl am wyliau'r haf, a gallwn ddychmygu'r cyffro y mae pobl yn ei deimlo wrth gychwyn ar eu gwyliau i wahanol rannau o'r byd. Yn aml iawn, bydd atgofion a lluniau'r gwyliau'n cynnal pobl am fisoedd wedi iddyn nhw ddychwelyd adref. Ond weithiau, mae gwyliau'n troi'n chwerve a'r atgofion yn erchyll.

Felly y bydd hi i gannoedd o bobl y bu raid iddyn nhw ddychwelyd adref o Tunisia yr wythnos ddiwethaf wedi'r ymosodiad a laddodd o leiaf 38 o bobl ar y traeth yn Sousse. Ni wyddys eto o faint yn union ohonyn nhw sy'n dod o wledydd Prydain, ond cadarnhawyd eisoes bod o leiaf 15. Mae pobl o Gymru ymhlith y rhai a anafwyd, os nad ymhlith y rhai a laddwyd hyd yn oed. Roedd yna Gymry yn sicr ymhlith y cannoedd a ddychwelodd o Tunisia ac ymhlith y bobl sy'n dal yn y wlad yn aros i ddod adref.

Ddylai cyflafan o'r fath ddim bod yn waeth yn ein golwg oherwydd ei bod yn cyffwrdd â phobl ein gwlad ni ein hunain. Wedi'r cwbl, mae bywyd pob person mor werthfawr â'i gilydd, pwy bynnag ydyw ac o ble bynnag y daw. O fewn oriau i'w gilydd, clywsom am ladd 27 o bobl mewn mosg yn Kuwait a gweithred derfysgol bosibl arall pan laddwyd gŵr mewn ffatri yn Ffrainc. Ond ar yr hyn a ddigwyddodd yn Sousse y bu'r sylw pennaf gennym, a hynny mae'n rhaid cydnabod am ei bod

yn naturiol i ni ymateb yn gryfach pan ddaw'r pethau hyn yn nes atom. Gweddiwn dros bawb a ddiodeffodd ddydd Gwener, y bobl a anafwyd a'r teuluoedd a gollodd anwyliaid.

Mae'n anodd iawn dychmygu poen ac ofnau'r bobl a ddaliwyd yng nghanol y saethu ar draeth Sousse. Yn naturiol, bydd llawer yn teimlo'n chwerve, a rhai yn teimlo'n chwerve tuag at Dduw. Bydd llawer yn profi dychryn ac ofn am gyfnod hir iawn. Bydd rhai wedi eu dryllio'n llwyr ac yn ei chael yn anodd os nad yn amhosibl i ddod dros y sioc a'r golled. Gweddiwn dros y bobl hyn heddiw, gan eu cyflwyno i ofal Duw Dad sy'n deall pob chwerve ac ofn a dryswch, ac sy'n medru dod atom yn ein hofnau i'n hymgeleddu a'n cysuro.

Yn nes adref, clywsom am ddamwain ffordd anghueol ger Aberdaron, lle bu farw merch fach chwech oed ddoe. Gan mai yn Swydd Rhydychen y mae ei chartref, mae'n debyg mai ar ei gwyliau yr oedd hithau hefyd, a bod gwyliau haf wedi troi'n hunllef i deulu arall. Gweddiwn dros y teulu hwnnw hefyd heddiw, a thros bob teulu arall y gwyddom am eu profedigaethau a'u gofidiau, beth bynnag yw'r achos.

Ymhen tair wythnos bydd yn wyliau'r ysgol. Gweddiwn am ddiogelwch i'n plant dros y gwyliau, a gweddiwn y bydd y gwyliau'n gyfnod o ymlacio a mwynhau i holl blant ein hardal, i bawb o'n cydnabod, ac i ninnau.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Miss Nerys Jackson, Caernarfon. Croeso cynnes, a diolch iddi am ei gwasaeth.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Dymuniadau gorau i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Vivienne Thomas, 89 Maes Padarn, Llanberis a fu farw ddydd Sul diwethaf, Mehefin 21 yng Nghartref Nyrsio Ceris Newydd, Treborth, Bangor yn 68 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â'i phriod., Evan a'u plant, Paul, Steven, Colin, Andrew a Nia a'u teuluoedd, a'i mam, Sally a'i chwaer a'i brodyr, Meira, Brian a Derek a'r teulu cyfan yn eu colled.

Roedd Vivienne yn aelod ffyddlon o'r eglwys yn Capel Coch, a deuai yn gyson i'r oedfaon. Roedd yn hardd o ran pryd a gwedd ac yn hardd ei chymeriad. Roedd yn ofalus o'i theulu; yn gyfeillgar a hwyliog; yn annwyl a chymwynasgar. Yng Nghartref Plas Pengwaith, yn ei swydd olaf cyn ymdeol, bu'n ofalus a charedig dros ben.

Aeth deng mlynedd heibio ers iddi gael ei tharo â'r afiechyd blin a'i gwaniodd mor greulon dros y blynyddoedd dilynol. Mae Evan yn ddiolchgar am bob gofal a gafodd Vivienne gan bawb, yn cynnwys cymdogion a ffrindiau a theulu, a phawb a fu'n gofalu mor dyner amdani yng Ngheris Newydd dros y blynyddoedd.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Capel Coch ac ym Mynwent Nant Peris echdoe, dydd Gwener, Mehefin 26 dan arweiniad y Gweinidog. Mrs Bethan Holding oedd yr organydd.

Cwpan Efe

Cynhaliwyd Cwpan Efe ar gae Ysgol Gynradd Llanrug nos Iau diwethaf. Cafwyd noson brysur iawn gyda 14 o dimau pêl droed 5-yr-ochr yn cystadlu'n frwd.

Andrew ei hun oedd yn dweud gair wrth y plant yn ystod yr egwyl tra oedd y plant yn cael diod a chreision. Soniodd wrthynt am y gwerth a roddir a'r pris a delir am chwaraewyr fel Gareth Bale, gan gymhwyso hynny wedyn wrth sôn

am y gwerth a rydd Duw anom ni a'r pris a dalodd Iesu Grist drosom.

Wyddom ni ddim beth yw gwerth dweud gair byr fel hyn am y Ffydd wrth y plant yn ystod y nosweithiau hyn. Ond cefais fy nghalonogi'n fawr gan ddaud beth a glywais nos Iau. Digwydd clywed un o'r plant yn dweud ar ddechrau'r noson y byddai rhywun 'yn sôn am Iesu Grist heno'. Mae'r plant hyn yn mynd i fwy nag un trnainaint pêl droed, ac roedd yn braf meddwl eu bod yn deall bod a wnelo Cwpan Efe rywsut â'r Iesu. Ac yna un o'r teidiau yn dod ataf i ddweud bod ei wŷr (sydd tua 10 oed) wedi dweud wrtho amser te ddydd Gwener beth oedd y neges a rannwyd noson Cwpan Efe y llynedd! Mae clywed peth felly'n dangos mor bwysig yw rhannu'r Efengyl mewn nosweithiau o'r fath. Pwy wŷr ym mha ffordd y bydd Duw'n defnyddio ein hymdrechion gwael ni i gyhoeddi'r newydd da am Iesu?

Diolch yn arbennig i Andrew a, drefnu'r cyfan, ac i Llion Jones, Dafydd Pritchard a Dafydd Gibbard am ddyfarnu'r gemau. Timau Salem Caernarfon a Chysegr, Bethel a gyrhaeddodd y rownd derfynol a chan mai gêm gyfartal ddi-sgôr oedd hi penderfynwyd rhannu'r wobr. Felly, am y tro cyntaf bydd dau dîm yn cadw Cwpan Efe am chwe mis yr un.

Diolch i'r ysgolion Sul am gefnogi'r noson a diolch i'r rhieni a phawb a ddaeth yno i gefnogi'r plant. Diolch hefyd i Mr Robin Williams, Pennaeth yr Ysgol am adael i ni ddefnyddio cae ac adnoddau'r Ysgol eleni eto.

Cwpan CIC

Cynhelir Cwpan i dimau pel droed 5-yr ochr oed uwchradd (Blwyddyn 7-10) yng Nghanolfan Gristnogol Tŷ Nant, Abererch nos Iau, Gorffennaf 9. Bydd y chwarae'n cychwyn am 5.30 o'r gloch.

Pen-blwydd Hapus

Dymunwn Ben-blwydd Hapus yn 90 oed i Mrs Bet Hughes, Adwy'r Mynydd, Deiniolen ddydd Gwener. Gobeithio i chi diwrnod braf.

Te Mefus

Cynhelir Te Mefus yn festri Bethlehem, Talybont am 7.00 o'r gloch, nos Fercher. Gorffennaf 1. Y tâl mynediad fydd £2.00. Bydd yr elw at y Capel.

Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr

Cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni yn Nant Gwrtheyrn o ddydd Iau, Gorffennaf 2 hyd ddydd Sadwrn, Gorffennaf 4.

Dechreuir am 11 o'r gloch ddydd Iau ac am 10.00 o'r gloch ddydd Gwener. Bydd Oedfa o Fawl am 7.30 o'r gloch nos Wener, a phregethir gan y Parchg Euros Jones, Llangefni.

Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr

Daw Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr i ben gyda 'Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr' yn Nant Gwrtheyrn ddydd Sadwrn nesaf, Gorffennaf 4. Diwrnod o addoliad a mwynhad fydd hwn i blant, ieuentid a phobl o bob oed, gyda gweithgareddau arbennig ar gyfer gwahanol oeddrannau, a chyfle i addoli mewn arddull fywiog a ffres.

Dymunwn yn dda i Dafydd a Gwenno Pritchard, Llanrug a fydd yn arwain y sesiynau i blant gyda Llinos Roberts, Trefor.

Dechreuir am 10.30 o'r gloch y bore a gorrffennir am 4.00 o'r gloch y pawns. Cofiwch fod croeso cynnes i bawb i'r Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr.